# Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010

**2010 mccc 1**

**RHAN 2**

GWARCHOD PLANT A GOFAL DYDD I BLANT

*Gwybodaeth*

**45 Cyflenwi gwybodaeth i awdurdodau lleol**

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru roi gwybodaeth a ragnodwyd i'r awdurdod lleol perthnasol, os ydynt yn cymryd unrhyw un neu unrhyw rai o'r camau canlynol o dan y Rhan hon—

(a) caniatáu cais cofrestru i berson;

(b) rhoi hysbysiad o'u bwriad i ddiddymu cofrestriad person;

(c) diddymu cofrestriad person;

(d) atal cofrestriad person;

(e) tynnu person oddi ar y gofrestr ar gais y person hwnnw.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru hefyd roi gwybodaeth a ragnodwyd i'r awdurdod lleol perthnasol os gwneir gorchymyn o dan adran 34(2).

(3) Yr wybodaeth y gellir ei rhagnodi at ddibenion yr adran hon yw gwybodaeth a fyddai'n cynorthwyo'r awdurdod lleol wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau o dan adran 27 o Ddeddf Gofal Plant 2006 (p. 21).

(4) Yn yr adran hon, ystyr "yr awdurdod lleol perthnasol" yw'r awdurdod lleol ar gyfer yr ardal y mae'r person yn gweithredu fel gwarchodwr plant ynddi (neu wedi gweithredu felly) neu'n darparu (neu wedi darparu) gofal dydd y mae'r person (neu yr oedd y person) wedi ei gofrestru ynglŷn ag ef.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru roi gwybodaeth i berson sy'n arfer swyddogaethau statudol (at ddibenion sy'n gysylltiedig â'r swyddogaethau hynny) ynghylch a yw person wedi'i gofrestru o dan y Rhan hon ai peidio.